cplll | Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund



# Cronfa Bensiynau Clwyd

# Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi

Mawrth 2024

# Tudalen Cynnwys


Gofyniad Statudol am Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi ........ 4
Ynglŷn â'r Gronfa ........ 5
Llywodraethu a Rheoli'r Gronfa ........ 5
Nodau ac Amcanion ........ 6
Ymagwedd at gronni ........ 7
Strwythur a llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ........ 7
Strwythur Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru ........ 8
Strategaeth Fuddsoddi ........ 9
Egwyddorion Cyllido ........ 9
Egwyddorion Buddsoddi ........ 10
Strategaeth Fuddsoddi ........ 11
Gosod y Strategaeth ........ 11
Penderfyniadau Buddsoddi ........ 11
Penderfyniadau Buddsoddi Strategol ........ 11
Penderfyniadau Buddsoddi Tactegol ........ 12
Penderfyniadau Dewis Stoc ........ 12
Dyraniad Asedau Strategol ........ 12
Y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau ........ 12
Dyrannu Asedau ........ 13
Fframwaith Rheoli Risg ........ 14
Gwireddu buddsoddiadau ........ 16
Strategaeth Arian Parod ........ 16
Benthyca Stoc ........ 17
Cofrestr Risgiau ........ 17
Risg Diddyledrwydd a Risg Camgymhariad ........ 17
Risg Rheolwr (gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru) ........ 18
Risg Hylifedd ........ 18
Risg Wleidyddol ........ 18
Risg Llywodraethu Corfforaethol ........ 18
Risg Ddeddfwriaethol ........ 18
Risg y Farchnad ........ 19
Cyllidebau Risg ........ 20

Cyngor Priodol....20
Polisi Buddsoddi Cyfrifol o fewn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi....20
Cefndir Rheoleiddio....20
Polisi Buddsoddi Cyfrifol....21
Crynhoi Buddsoddiadau....22
Stiwardiaeth ac Ymgysylltiad....22
Adrodd a Datgelu....22
Credoau Buddsoddi Cyfrifol....23
Newid Hinsawdd....24
Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfrifol Strategol....26
Prisiad Actiwaraidd ac adolygiad o’r Strategaeth Fuddsoddi....27
Ymrwymiad....27
Cymeradwyo, adolygu a rhagor o wybodaeth....28
Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori....28
Rhagor o Wybodaeth....28

# Gofyniad Statudol am Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi

Cyngor Sir y Fflint yw'r Awdurdod Gweinyddu sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli Cronfa Bensiynau Clwyd (y Gronfa) ar ran ei budd-ddeiliaid; yr aelodau a chyflogwyr sy'n cymryd rhan yn y Gronfa. Amlinellir y cyfrifoldebau hyn yn bennaf yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; amlinellir y fframwaith rheoleiddio isod.

Mae Rheoliad 7(1) o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 (Rheoliadau Buddsoddi CPLlL), sy'n disodli Rheoliadau Buddsoddi 2009, yn mynnu bod awdurdodau sy'n gweinyddu yn ffurfio Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi sy'n gorfod bod yn unol â'r canllawiau a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hyn yn disodli'r gofyniad presennol i gynhyrchu a chynnal Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Rhaid i Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi gynnwys:

a) Gofyniad i fuddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau
b) Asesiad yr awdurdod o addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau
c) Ymagwedd yr awdurdod at risg, gan gynnwys y ffordd y caiff risgiau eu mesur a'u rheoli
d) Ymagwedd yr awdurdod at grynhoi buddsoddiadau, gan gynnwys defnyddio cerbyd buddsoddi ar y cyd a rhannu gwasanaethau
e) Ymagwedd yr awdurdod at sut y caiff ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol neu gorfforaethol eu hystyried wrth ddethol, peidio â dethol, cynnal a gwireddu buddsoddiadau a
f) Pholisi'r awdurdod ar arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) ynghlwm wrth fuddsoddiadau

Rhaid i Ddatganiad y Strategaeth Fuddsoddi hefyd amlinellu'r uchafswm o ran canran o werth llawn bob buddsoddiad y bydd yn ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau penodol neu ddosbarthiadau o fuddsoddiadau. Mae hyn, i bob pwrpas, yn disodli Atodlen 1 Rheoliadau 2009.

Dyluniwyd y Datganiad gwreiddiol er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac roedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2017. Mae wedi'i adolygu'n rheolaidd ac fe'i diweddarwyd yn 2023.

Dylid darllen Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi ar y cyd â'r dogfennau statudol a ganlyn:

- Datganiad y Strategaeth Gyllido;
- Polisi Llywodraethu a Datganiad Cydymffurfio;
- Strategaeth Gyfathrebu;
- Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon;
- Prisiad Actiwaraidd.

Gellir dod o hyd i'r holl ddatganiadau a dogfennau uchod ar wefan y Gronfa ar https://cronfabensiynauclwyd.org.uk


## Ynglŷn â'r Gronfa

Pwrpas Cronfa Bensiynau Clwyd yw darparu buddiannau marwolaeth ac ymddeol ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol (ac eithrio athrawon, yr heddlu a diffoddwyr tân) yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, a gweithwyr o gyrff cymwys eraill sy'n darparu gwasanaethau tebyg.

## Llywodraethu a Rheoli'r Gronfa

Mae Cyngor Sir y Fflint (y Cyngor) wedi dirprwyo'r gwaith o benderfynu ynghylch y Gronfa a'i rheoli i Bwyllgor Cronfa Bensiynau ffurfiol (y Pwyllgor), wedi'i gefnogi gan Banel Ymgynghorol Pensiynau (y Panel). Cyn gwneud penderfyniadau buddsoddi strategol, mae'r Gronfa yn cael cyngor gan ymgynghorydd buddsoddi rheoledig; Mercer, sydd hefyd yn rhoi cyngor Rheoli Risg ac Ariannu. Y Rheolwr Cyllid Corfforaethol yw'r Swyddog Adran 151 y Cyngor ac sydd felly â chyfrifoldeb statudol dros faterion ariannol priodol y Cyngor, gan gynnwys materion y Gronfa.

Amlinellir strwythur llywodraethu'r Gronfa yn y diagram isod.



## Nodau ac Amcanion

Datganiad Cenhadaeth ein Cronfa yw:

- cael ein hadnabod fel sefydliad blaengar, ymatebol, rhagweithiol a phroffesiynol sy'n darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid, sydd ag enw da ac sy'n gredadwy, i'r holl gwsmeriaid;
- bod wedi meithrin diwylliant corfforaethol o ymwybyddiaeth o risg, llywodraethu ariannol, a darparu gwasanaethau nodedig o'r ansawdd gorau, yn unol ag adnoddau'r gyllideb;
- gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan ganolbwyntio ar atebion, gydag ymagwedd sy'n credu yn ein gallu i gyflawni.

Mae hyn yn berthnasol i'r dull o fuddsoddi arian y Gronfa yn ogystal â rheoli'r Gronfa gyffredinol. Datblygwyd y Datganiad o Fwriad i arwain rheolaeth pob agwedd ar y Gronfa.

Rhoddir crynodeb isod o'r amcanion penodol yn ymwneud ag ariannu a rheoli buddsoddiad y Gronfa:

- Cyflawni a chynnal asedau sy'n hafal i 100% o rwymedigaethau o fewn y terfyn amser cyfartalog o ddeuddeg mlynedd, gan gadw o fewn terfynau risg rhesymol;
- Pennu gofynion cyfraniadau'r cyflogwyr, gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd a chryfder cyfamod pob cyflogwr, gyda'r nod o sicrhau bod y cyfraniad y gofynnir amdano gan y cyflogwyr mor rhagweladwy â phosib;
- Gan gydnabod y cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr, anelu at ddigon o elw dros ben ar fuddsoddiadau o gymharu â'r twf mewn rhwymedigaethau;
- Taro'r cydbwysedd priodol rhwng perfformiad cyson hirdymor buddsoddiadau a'r amcanion cyllido;
- Rheoli rhwymedigaethau cyflogwyr yn effeithiol drwy fabwysiadu amcanion cyllido penodol i bob cyflogwr;
- Sicrhau y gellir cwrdd â gwariant arian parod net os/pan gyfyd yr angen;
- Cadw swm dyledion nad oes modd eu hadennill mor isel â phosib wrth derfynu cyfranogiad cyflogwyr;
- Sicrhau bod ei strategaeth, gweithredoedd rheoli buddsoddiadau, gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynaladwyedd;
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r newid i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau sero carbon deuocsid net erbyn 2045;
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaladwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith;
- Anelu at ddefnyddio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel y dewis cyntaf i fuddsoddi asedau'r Gronfa, yn ddibynnol arni'n gallu bodloni gofynion strategaeth ac amcanion buddsoddi'r Pwyllgor (yn cynnwys gofynion cynaliadwyedd), o fewn costau tymor hir derbyniol i ddarparu'r buddion disgwyliedig ac yn destun hyder parhaus wrth lywodraethu'r Bartneriaeth.

Mae'r camau gweithredu allweddol a'r meysydd ffocws sydd wedi'u nodi er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi'u cynnwys yng nghynllun busnes y Gronfa, er mwyn alinio â nodau ac amcanion allweddol y strategaeth hon.

## Ymagwedd at gronni

Mae Rheoliad Buddsoddi CPLlL 7(2) (d) yn gorchymyn fod pob awdurdod yn ymrwymo i gronfa addas i gyflawni buddion meintiol. Mae hefyd yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu yn cadarnhau fod y gronfa fuddsoddi ddewisol yn cwrdd â meini prawf diwygio buddsoddiad y Llywodraeth, neu i'r graddau nad yw'n gwneud hynny, mae'r Llywodraeth yn fodlon iddo barhau.

Yng Nghymru, mae'r holl awdurdodau gweinyddu'r CPLlL wedi cytuno i gydweithio a llofnodwyd Cytundeb Rhwng Awdurdodau ganddynt i greu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'r egwyddorion o sut mae'n gweithredu.


Amcanion y Bartneriaeth yw:

- Darparu trefniadau cronni sy'n caniatáu i gronfeydd unigol gyflwyno eu strategaethau buddsoddi eu hunain (lle bo hynny'n ymarferol);
- Cyflawni'r arbedion cost gwirioneddol ar gyfer cronfeydd sy'n cymryd rhan a hefyd gwella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl ffioedd;
- Cyflwyno trefniadau llywodraethu cadarn i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa;
- Gweithio'n agos gyda chronfeydd eraill er mwyn archwilio'r buddion y gall pob budd-ddeiliad yng Nghymru eu cael o ddatrysiadau cronni ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl;
- Darparu fframwaith buddsoddi sydd yn cyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer ei fudd-ddeiliaid allweddol; yr Awdurdodau sy'n Aelod. Bydd yr Awdurdodau sy'n Aelod yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer eu Gweithwyr ac Aelodau'r Cynllun. Drwy gynnwys cyflawni canlyniadau buddsoddi cynaliadwy hirdymor i wneud penderfyniadau, drwy ddyraniad cyfalaf, craffu parhaus y rheolwyr ased, ac ymarfer yr hawliau a chyfrifoldebau sydd yn codi fel perchnogion asedau.

### Strwythur a llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Penododd y Bartneriaeth Link Fund Solutions Ltd (bellach yn Waystone Management (UK) Limited) fel Gweithredwr y Bartneriaeth.  Rôl y Gweithredwr yw sefydlu a gweithredu cerbyd buddsoddi ar y cyd at ddefnydd penodol cronfeydd CPLlL yng Nghymru. Mae diagram sy'n dangos y strwythur llywodraethu i'w weld isod.

## Strwythur Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru




Mae'r Pwyllgor Cyd-lywodraethu (JGC) yn cyflawni nifer o gyfrifoldebau yn ymwneud â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, yn cynnwys goruchwylio'r gweithredwr. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig – un o bob un o'r wyth cronfa sy'n cymryd rhan, yn ogystal â'r Cynrychiolydd Aelod y Cynllun. Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau Pensiynau unigol yn aelodau o'r Pwyllgor Cyd-lywodraethu ond gallai awdurdodau gweinyddu ddewis enwebu aelodau eraill os yw hynny'n briodol. Mae'r trefniant hwn yn cynnig atebolrwydd am reolaeth o'r Bartneriaeth a'r gweithredwr yn ôl i'r awdurdodau gweinyddu unigol.

Mae'r Pwyllgor wedi'i sefydlu'n ffurfiol fel Cyd-bwyllgor rhwng yr awdurdodau gweinyddu sy'n cymryd rhan. Mae'n gweithredu ar sail "Un Gronfa, Un Bleidlais", er caiff unrhyw benderfyniadau eu gwneud ar gonsenswS lle y bo'n bosibl. Nid yw'r Cynrychiolydd Aelod y Cynllun yn pleidleisio. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl ffurfiol ar gyfer y Pwyllgor.

Sefydlwyd Gweithgor Swyddogion Partneriaeth Pensiwn Cymru fel rhan o Gytundeb Rhyng-Awdurdod i gefnogi a chynghori'r Pwyllgor Cyd-lywodraethu ar faterion rhesymol ar gais y Pwyllgor Cyd-lywodraethu neu unrhyw faterion yn ymwneud â'r cytundeb cronni, a godir gan unrhyw un o Swyddogion Adran 151 neu Swyddogion Monitro'r awdurdodau.

O ran Cronfa Bensiynau Clwyd, mae Pwyllgor y Gronfa Bensiynau yn pennu pa swyddogion sy'n eistedd ar y Gweithgor Swyddogion - ar hyn o bryd Pennaeth a Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd. Mae hawl gan Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro pob awdurdod i fod yn bresennol yn y Gweithgor Swyddogion.

Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru, Waystone Management (UK) Limited, sy'n gyfrifol am ddewis a chontractio'r rheolwyr buddsoddi ar gyfer pob un o'r is-gronfeydd yn ogystal â phenodi darparwyr gwasanaethau eraill fel gwasanaethydd storfa asedau, a phrisiwr allanol lle bo angen.

Bydd bondiau ac ecwiti rhestredig yn cael eu buddsoddi drwy Weithredwr, sydd yn Gynllun Contract Awdurdodedig (ACS) er mwyn elwa o natur dryloyw'r cerbyd o ran treth. Fodd bynnag, mae cerbydau eraill, nid drwy Weithredwr wedi cael eu creu ar gyfer ecwiti preifat, credyd preifat a seilwaith.

O ystyried bod gan y Gronfa gyfran sylweddol o'i hasedau mewn buddsoddiadau amgen, llai hylifol, efallai y bydd yn cymryd peth amser cyn y cronnir holl asedau'r Gronfa.

## Strategaeth Fuddsoddi

Mae'r adrannau a ganlyn yn rhoi manylion strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, sy'n ystyried Rheoliadau Buddsoddi CPLlL 7(2)(a) a 7(2)(b) a restrir isod:

- Buddsoddi arian mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau
  Mae Rheoliad 7(2) (a) yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu yn buddsoddi mewn portffolio wedi'i arallgyfeirio o asedau i sicrhau y rheolir risg yn briodol ac y caiff natur anwadal yr enillion cyffredinol ei lleihau. Nid yw'r canllawiau yn rhagnodi'r dosbarthiadau asedau penodol y mae'n rhaid buddsoddi arian y Gronfa ynddynt.
- Addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau
  Mae Rheoliad 7(2)(b) yn gorchymyn, wrth asesu dyraniad strategol ar gyfer y Gronfa, bod awdurdod gweinyddu yn asesu addasrwydd buddsoddiadau penodol a mathau o fuddsoddiadau yn erbyn yr angen i gwrdd â rhwymedigaethau pensiwn pan eu bod yn ddyledus.

Wrth asesu addasrwydd ac amrywiaeth y buddsoddiadau, ac ystyried y risgiau, amcanion cyffredinol y Gronfa ddylai'r man cychwyn fod. Rhestrir yr amcanion buddsoddi a chyllido yn yr adran flaenorol "Ynglŷn â'r Gronfa".

Er mwyn cyflawni'r amcanion cynradd hyn, cytunwyd ar yr egwyddorion cyllido a buddsoddi a ganlyn.

### Egwyddorion Cyllido

Mae'r Strategaeth Gyllido a weithredwyd ar brisiad ar 31 Mawrth 2022 yn cynnwys nifer o ragdybiaethau elw ar fuddsoddiad:

- Enillion ar fuddsoddiadau (cyfradd ostyngol) ar gyfer targed ariannu chwyddiant CPI + 1.5% y.f. (tybiedig 4.60% y.f.)
- Enillion ar fuddsoddiadau (cyfradd ostyngol) ar gyfer y gyfradd cyfrannu at y gwasanaeth yn y dyfodol o chwyddiant CPI + 2% y.f. (tybiedig 5.10% y.f.)

Dros gyfnod o dair blynedd, bydd elw ar fuddsoddiad sy'n uwch na'r rhagdybiaethau hyn (wedi eu diweddaru yn unol â'r newidiadau mewn rhagolwg marchnad yn ôl adroddiadau monitro cyllid ar wahân) a fydd yn cyfrannu at wella sefyllfa gyllido ac felly cyfraniadau gweithiwr, yn ddibynnol ar ragdybiaethau atebolrwydd megis hirhoedledd a chwyddiant yn aros o fewn targed, a bod aelodaeth yn parhau yn fras ar yr un proffil. Mae prisiad unwaith

bob tair blynedd y Gronfa yn ystyried yr holl ffactorau hyn wrth bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Gweithredwyd cyfraddau gweithwyr newydd o 1 Ebrill 2023 fel rhan o brisiad 2022.

Mae Datganiad y Strategaeth Gyllido wedi ei baratoi yn unol â Rheoliad 58 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013. Gellir gweld copi o'r Datganiad Strategaeth Gyllido ar wefan y Gronfa ar https://www.cronfabensiynauclwyd.org.uk/cy/Llywodraethu/Strategaethau-a-Pholisiau/cartref.aspx. Bydd y strategaeth gyllido yn cael ei monitro yn ystod 2023/26.

Wrth reoli'r Gronfa, yr amcanion cyllido allweddol yw:

- anelu at lefel ariannu o 100% ac;
- anelu at sefydlogrwydd tymor hir mewn cyfraddau cyfranogi cyflogwyr, wrth gydnabod cyfyngiadau ar fforddiadwyedd i gyflogwyr.

Mae rhestr lawn o'r nodau ac amcanion cyllido ar gyfer y Gronfa, wedi'u nodi yn Natganiad y Strategaeth Gyllido.

Er bod mwy o flaenoriaeth i sefydlogrwydd costau o gyfraddau cyfranogi'r cyflogwyr, mae cost absoliwt i'r cyflogwr hefyd yn bwysig. Mae hyn yn awgrymu bod:

- cost gweinyddu'r Gronfa yn mynd i gael ei chyfyngu drwy fabwysiadu arfer rheoli gorau;
- bydd cyflogwyr yn mabwysiadu polisïau priodol ac economaidd yn y meysydd hynny lle mae ganddynt ddisgresiwn a lle mae costau eu gweithredoedd yn gyfrifoldeb i'r Gronfa;
- bydd polisi buddsoddi cyffredinol y Gronfa yn cael ei anelu at enillion buddsoddi uwch mewn perthynas â thwf atebolrwyddau. Mae hyn yn awgrymu y bydd y Gronfa yn parhau i gymryd risg weithredol o ran sut y mae'n buddsoddi ei hasedau, sy'n gymharol i'w phroffil atebolrwydd.

Nodir egwyddorion buddsoddi'r Gronfa yn llawn isod, a'u bwriad yw taro'r cydbwysedd priodol rhwng y strategaeth sydd fwyaf addas ar gyfer perfformiad cyson hirdymor a'r amcanion cyllido. Bod perfformiad buddsoddi ffafriol yn gallu chwarae rhan werthfawr wrth sicrhau cyllid digonol yn y tymor hwy.

## Egwyddorion Buddsoddi

Yr amcanion buddsoddi allweddol ar gyfer y Gronfa yw anelu am enillion buddsoddi dros ben digonol yn berthnasol i dwf atebolrwydd i ddiwallu'r amcanion ariannu a nodwyd uchod ar sail barhaus, a chynnal cydbwysedd priodol rhwng perfformiad buddsoddi cyson hirdymor a'r amcanion ariannu.

Pennir proffil risg ac enillion strategol cyffredinol y Gronfa yn bresennol drwy ei ddyraniad asedau strategol. Wrth sefydlu dyraniad asedau hirdymor strategol y Gronfa, neu feincnodi strategol, y ffactorau allweddol yw lefel gyffredinol yr enillion a geisir, lefel isafswm y risg sy'n cyd-fynd â hyn ac effaith arallgyfeirio wrth leihau'r risg ymhellach. Ar lefel fandad neu ddosbarth asedau, pwysiadau dosbarth asedau, meincnodau priodol a thargedau

perfformiad terfynol yw'r blociau adeiladu allweddol wrth lunio strategaeth gyffredinol y Gronfa.

Polisi'r Gronfa yw cynnal adolygiad sylfaenol o strwythur a threfniadau buddsoddi’r Gronfa a threfniadau rheoli o leiaf unwaith bob pedair blynedd, neu yn amlach os yw’n briodol. Mae’r adolygiad yn cynnwys ymchwil ar farn y farchnad ar gyfer y risg mwy hirdymor, enillion a phroffiliau cydberthyniad ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o asedau a barn fwy tactegol ar yr amgylchedd economaidd a marchnadoedd byd-eang dros y tair i bum mlynedd nesaf. Defnyddir yr ymchwil hwn i bennu cydbwysedd optimwm yn y dyfodol rhwng y gwahanol ddosbarthiadau o asedau ac felly meincnod strategol sefydlog y Gronfa.

# Strategaeth Fuddsoddi

## Gosod y Strategaeth

Mae strategaeth fuddsoddi’r Gronfa wedi ei phennu i fodloni’r amcanion a amlinellwyd yn gynharach yn y Datganiad hwn.  Mae hyn yn cynnwys ystyried proffil atebolrwydd y Gronfa a’r ymagwedd tuag at risg.

Mae’r meincnod strategol a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adran hon yn ystyried nodweddion risg ac enillion pob dosbarth o asedau ac yn darparu balans hirdymor rhesymol sy’n briodol i atebolrwyddau’r Gronfa. Mae’r Gronfa’n ystyried cymysgedd o ddosbarthiadau o asedau wrth lunio portffolio cyffredinol ac yn ystyried y cydberthyniad yn anwadalrwydd ac enillion pob un ohonynt.

Mae’r Gronfa’n cydnabod manteision arallgyfeirio ar draws dosbarthiadau o asedau, yn ogystal ag y tu mewn iddynt, i leihau’r risg sy’n deillio o fuddsoddi mewn unrhyw farchnad benodol.

Wrth asesu addasrwydd o ddosbarthiadau asedau, bydd nifer o nodweddion yn cael eu hystyried gan gynnwys enillion, risg/ anwadalrwydd yr enillion, hylifedd, buddsoddiad cyfrifol, hyd a sensitifrwydd y gyfradd llog.  Wrth osod ac adolygu’r strategaeth fuddsoddi gyffredinol ar gyfer y Gronfa, y man cychwyn bob amser yw asesiad yr Actiwari o atebolrwyddau’r Gronfa. Mae’r asesiad hwn yn cynnwys gofynion llif arian, ac asesiad o’r enillion gofynnol i sicrhau gallu'r Gronfa i dalu yn yr hirdymor, ac mae’n hanfodol fod y strategaeth fuddsoddi yn cydweddu â hyn.

## Penderfyniadau Buddsoddi

Mae’r Gronfa’n gwahaniaethu rhwng tri gwahanol fath o benderfyniad buddsoddi: strategol, tactegol a lefel stoc.

### Penderfyniadau Buddsoddi Strategol

Mae'r penderfyniadau hyn yn y tymor hir o ran natur ac yn cael eu gyrru gan ddealltwriaeth o amcanion, anghenion a rhwymedigaethau'r Gronfa.

Gwneir penderfyniadau buddsoddi gan y Pwyllgor.   Maent yn gwneud hynny ar ôl derbyn cyngor gan eu hymgynghorydd buddsoddi.  Dyma rai enghreifftiau o benderfyniadau o’r fath a thasgau yn ymwneud â gweithredu'r penderfyniadau hyn:

- Gosod amcanion buddsoddi;
- Pennu’r gwahaniad rhwng y twf a'r portffolios sefydlogi;
- Pennu’r dyraniad i ddosbarthiadau o asedau o fewn y portffolios twf a sefydlogi;
- Pennu meincnod y Gronfa;
- Adolygu'r amcanion buddsoddi a dyraniad asedau strategol.

### Penderfyniadau Buddsoddi Tactegol

Mae’r rhain yn benderfyniadau tymor byr ac yn seiliedig ar ddisgwyliadau o ran symudiadau yn y farchnad yn y tymor agos.  Gall penderfyniadau o'r fath olygu gwyro dros dro o'r dyraniad asedau strategol a gall fod angen amseru mynediad i mewn, neu ymadael o farchnad buddsoddi neu ddosbarth o asedau.

Mae’r Pwyllgor wedi dirprwyo grymoedd penodol i Bennaeth y Gronfa gan gymryd cyngor gan y Grŵp Dyrannu Asedau Tactegol. Diben y Portffolio Dyrannu Tactegol, a reolir gan y grŵp, yw manteisio ar gyfleoedd tymor byr (oddeutu blwyddyn) sy’n cyd-fynd ag amcanion risg ac enillion hirdymor y Gronfa. Mae’r Grŵp Dyrannu Tactegol wedi ymrwymo i’r Cylch Gorchwyl Portffolio Dyrannu Tactegol.

### Penderfyniadau Dewis Stoc

Cyfrifoldeb rheolwyr buddsoddi’r cronfeydd y buddsoddir y Gronfa ynddynt yw pob penderfyniad o'r fath.

## Dyraniad Asedau Strategol

Wrth osod y Dyraniad Asedau Strategol ar gyfer y Gronfa, mae Rheoliadau Buddsoddi CPLlL yn gorchymyn fod y Gronfa’n buddsoddi mewn amrywiaeth eang o fuddsoddiadau ac wrth wneud hynny yn asesu addasrwydd mathau penodol o fuddsoddiadau. Yn amodol ar fodloni'r elfennau hyn o’r Rheoliadau, nid yw’r Gronfa’n cael ei chyfyngu i fathau penodol o fuddsoddiadau; y gofyniad yw i'r Gronfa osod ei therfynau ei hun.   Wrth adolygu’r strategaeth, mae’r Gronfa’n ystyried dosbarthiadau asedau presennol ac amrywiaeth o ddosbarthiadau asedau amgen.

Wrth osod Dyraniad Asedau Strategol ar gyfer y Gronfa, mae’r Gronfa wedi ystyried sut y gallai gyflawni orau ei hamcanion Buddsoddiad Cyfrifol, sydd wedi’i nodi yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

### Y cydbwysedd rhwng gwahanol fathau o fuddsoddiadau

Mae Rheoliadau Buddsoddi CPLlL yn gorchymyn fod yr awdurdod gweinyddu’n ystyried arallgyfeirio buddsoddiadau'r Gronfa.

Bydd y Gronfa bob amser yn buddsoddi ar draws portffolio o fuddsoddiadau wedi eu harallgyfeirio i leihau risg i fuddsoddiadau. Yn ychwanegol at arallgyfeirio drwy asedau, bydd y Gronfa'n buddsoddi ar draws nifer o reolwyr a drwy wahanol ddulliau ac arddulliau buddsoddi.

Gallai'r Gronfa fuddsoddi trwy bortffolios cyfun a phortffolios ar wahân yn seiliedig ar pa mor briodol yw pob portffolio. Gall y Gronfa fuddsoddi ar draws cyfuniad o ddulliau buddsoddi goddefol, gweithredol ac enillion absoliwt yn seiliedig ar enillion posibl, costau a hyblygrwydd gweithredu.

Caiff rheolwyr buddsoddi'r Gronfa eu had-dalu naill ai drwy ffi ad valorem, h.y. mae'r ffi'n ganran o werth asedau sy'n cael eu rheoli, neu'n gyfuniad o ffi ad valorem a ffi'n seiliedig ar berfformiad. Egwyddor ffioedd sy'n seiliedig ar berfformiad yw bod y ffi sail yn is a bod ffi uwch ond yn cael ei thalu i reolwr os cwrddir neu y rhagorir ar yr amcan perfformiad.

## Dyrannu Asedau

Mae'r dyraniad asedau strategol ar gyfer y Gronfa'n gorfod bod yn gyson â'r enillion buddsoddi a ragdybir yn y strategaeth gyllido (wedi'i ddiweddaru yn unol â newidiadau yn rhagolwg y farchnad). Mae'r strategaeth fuddsoddi yn adlewyrchu natur tymor canolig a hirdymor yr atebolrwyddau, ond rhaid iddi hefyd gynnig hyblygrwydd i reoli anwadalrwydd tymor byr mewn marchnadoedd. Yn ogystal, rhaid i'r strategaeth fuddsoddi ystyried newidiadau posibl i lif arian wrth i broffil aelodaeth y Gronfa neu'r strwythur buddion newid.

Mae'r strategaeth fuddsoddi yn adlewyrchu'r gwahanol broffiliau enillion a risg pob dosbarth o asedau. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau risg ac enillion hirdymor yn cael eu cynhyrchu'n gyson dros bob amserlen ac ar gyfer pob dosbarth asedau, gall fod cyfnodau o berfformiad gwell neu waeth o'u cymharu â disgwyliadau hirdymor.

Mae'r fframwaith strategol yn cynnwys dyraniad targed y bydd perfformiad strategol yn cael ei fonitro yn ei erbyn (y cyfeirir ato fel y Dyraniad Strategol). Yn ogystal, mae ystodau ar gyfer pob categori o asedau sy'n caniatáu amrywiad cyfyngedig o fewn y fframwaith (y cyfeirir ato fel yr Ystod Strategol). Mae ystodau'n galluogi'r Gronfa i adlewyrchu newidiadau yn y rhagolwg o'r farchnad ac yn darparu mwy o hyblygrwydd i reoli ac ailgydbwyso arian parod.

Yn ychwanegol i'r Dyraniad Strategol ac Ystodau Strategol, mae dyraniad asedau tymor canolig amodol (yr Ystod Amodol) yn bodoli, i reoli risgiau sylweddol i'r dyraniad asedau strategol hirdymor, a allai amlygu eu hunain rhwng adolygiadau Cronfa.

Nid yw dyraniad strategol y Gronfa, fel yr amlinellir isod, yn rhagdybio unrhyw orberfformiad gan y rheolwyr buddsoddi.

| Dosbarth Asedau | Dyraniad Strategol (%) | Ystod Strategol (%) | Ystod Amodol* (%) |
|---|---|---|---|
| Ecwiti Byd-eang wedi'i Ddatblygu | 15.0 | 10.0 - 20.0 | 0 – 30 |
| Dyraniad Asedau Tactegol** | 11.0 | 9.0 – 13.0 | 0 – 20 |
| Credyd Aml-ased | 12.0 | 10.0 – 14.0 | 0 – 20 |
| Fframwaith Rheoli Risg*** | 28.0 | 15.0 – 40.0 | 0 – 45 |
| Arian Parod | 5.0 | 2.5 – 7.5 | 0 - 10 |
| **Marchnadoedd Preifat** | | | |
| Eiddo | 4.0 | 2.0 – 6.0 | 0 – 8 |
| Ecwiti Preifat | 8.0 | 6.0 – 10.0 | 0 – 15 |
| Lleol / Effaith | 8.0 | 6.0 – 10.0 | 0 – 15 |
| Isadeiledd | 6.0 | 4.0 – 8.0 | 0 – 15 |
| Credyd Preifat | 3.0 | 1.0 – 5.0 | 0 - 6 |
| **Cyfanswm** | **100.0** | | |

**Nodiadau:**

* Mae ystod Amodol ar lefel cyfanswm y Gronfa.

** Mae'r portffolio Dyraniad Asedau Tactegol yn ddyraniad tactegol byrdymor (gorwel o 12-mis) yn seiliedig ar Mercer (ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa).

*** Bydd y Fframwaith Rheoli Risg, cyfuniad o offerynnau cyswllt ecwiti Buddsoddiad wedi'i gymell gan rwymedigaeth (LDI) a chronfeydd arian parod (wedi'u dyrannu ar gyfer effeithlonrwydd rheoli cyfochrog) yn cael eu rheoli fel rhan o ddull rheoli risg. O ystyried natur y mandad hwn h.y. diogelu yn erbyn newidiadau i atebolrwydd, nid ei fwriad yw ailgydbwyso'r dyraniad, a all arwain at symudiad oddi wrth y dyraniad strategol.

Disgwylir i gynhwysiad ystod amrywiol o asedau a'r cwmpas am ddyraniad tactegol yn y strategaeth wella tebygolrwydd y Gronfa yn cyflawni ei amcanion hirdymor, gan gynnal anwadalrwydd cyffredinol enillion heb addasu enillion hirdymor disgwyliedig y Gronfa yn fawr.

## Fframwaith Rheoli Risg

Ym mis Mawrth 2014, bu i'r Gronfa sefydlu Fframwaith Rheoli Risg. Mae hyn wedi datblygu ers ei weithrediad cychwynnol a bellach yn cynnwys y strategaethau canlynol sy'n ceisio rheoli amrywiaeth o risgiau ariannol. Caiff y strategaethau hyn eu gweithredu gan Reolaeth Buddsoddi Insight (Insight). Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith yn yr adroddiad Rheoli Risg, Llwybr Hedfan a Chyllid, sy'n mynd i bob cyfarfod o Bwyllgor y Gronfa Bensiynau.

## Monitro Lefel Cyllido

Caiff lefel cyllido bras ei monitro'n ddyddiol a'i adrodd yn ffurfiol i'r Grŵp Cyllido a Rheoli Risg bob mis. Pe bai'r monitro dyddiol bras yn dangos bod y trothwy 110% wedi'i gyrraedd, dilynir proses a gytunwyd (fel yr amlinellwyd gan Bwyllgor y Gronfa Bensiynau) er mwyn cadarnhau'n ffurfiol a yw'r trothwy wedi'i gyrraedd a p'un a ddylid gwneud unrhyw newidiadau i'r strategaeth. Yna bydd hyn yn dod i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

## Rhaglen cronfeydd mantoli, yn rheoli cyfradd llog y Gronfa a risg chwyddiant

Ym mis Mawrth 2014, sefydlodd y Gronfa raglen fantoli atebolrwydd a oedd yn cynnwys cyfraddau llog a risgiau chwyddiant. Cytunwyd ar 'lwybr hedfan' i gynyddu lefel yr amddiffyniad yn seiliedig ar sbardunau arenillion y farchnad, i sicrhau bod risg yn cael ei lleihau ar adegau ffafriol. Ers mabwysiadu'r llwybr hedfan, mae nifer o sbardunau marchnad wedi'u gweithredu.

Yn dilyn newidiadau sylweddol i reoliadau ac amodau'r farchnad yn 2022/23, cytunodd y Grŵp Ariannu a Rheoli Risg i atal y fframwaith sbardunau marchnad. Bydd y fframwaith sbardunau yn cael ei ailystyried fel rhan o unrhyw weithgareddau lleihau risg ar gyrraedd lefel cyllido 110%.

Mae'r lefel mantoli yn cael ei fonitro'n chwarterol a bydd adolygiad llawn yn cael ei gynnal yn flynyddol.

## Portffolio ecwiti synthetig, dod i gysylltiad ag ecwitïau wrth fantoli'r risg negyddol

Fe wnaeth y Gronfa weithredu strategaeth ecwiti synthetig er mwyn cynyddu ei botensial enillion disgwyliedig mewn dull sy'n effeithlon o ran cyfalaf. Er mwyn rheoli'r risgiau negyddol sy'n gysylltiedig â'r strategaeth ecwiti synthetig, rhoddwyd strategaeth diogelu ecwiti dynamig ar waith ym mis Mai 2018. Mae hwn yn darparu mwy o hyblygrwydd a llywodraethu parhaus yn erbyn y dull sefydlog blaenorol oherwydd mae'n caniatáu i'r strwythur addasu'n haws i amodau newidiol y farchnad. Mae'r Gronfa yn bwriadu trawsnewid yn llawn ei ecwiti synthetig i ecwiti byd-eang meincnod Paris Aligned dros amser, mewn ffordd sydd yn lleihau costau trafodion.

## Strategaeth mantoli cyfredol

Gweithredodd y Gronfa strategaeth fantoli gyfredol i leihau'r risg o bunt sy'n cryfhau yn datbrisio gwerth daliadau ecwiti tramor ffisegol y Gronfa. Roedd hyn yn sgil y sterling yn parhau i wanhau. Fel deiliaid asedau tramor, roedd y Gronfa wedi cael budd sylweddol o'r cwymp mewn sterling yn dilyn refferendwm yr UE, ac yn dymuno lleihau risg arian cyfred drwy gloi cyfran o'r enillion a wnaed.

## Strategaeth rheoli cyfatebol

Mae'r strategaethau uchod yn defnyddio deilliadau ac felly angen rhoi sicrwydd cyfatebol o'r neilltu er mwyn cefnogi'r sefyllfaoedd, ac amddiffyn y Gronfa (a gwrth-bartïon) rhag y

risg o ddiffygdalu. Mae cydbwysedd rhwng dal digon o sicrwydd cyfatebol i gefnogi'r strategaethau yn erbyn symudiad arwyddocaol a sydyn mewn marchnadoedd, yn erbyn dal gormod fel ei fod yn fwrw ar adenillon y Gronfa.

Er mwyn rheoli'r cydbwysedd hwn, mae Strategaeth rheoli cyfatebol y Gronfa yn cael ei monitro yn rheolaidd.

## Gwireddu buddsoddiadau

Strwythurir polisi buddsoddiadau'r Gronfa fel y gellir gwireddu'r rhan fwyaf o'i buddsoddiadau'n rhwydd (mewn ecwiti a bondiau), ac eithrio yn yr amodau marchnad mwyaf eithafol.

Fodd bynnag, mae argaeledd cerbydau buddsoddi amgen yn galluogi'r Gronfa i fuddsoddi mewn dosbarthiadau asedau llai hylifol ac adeiladu portffolios wedi'u harallgyfeirio'n dda. Mae buddsoddiadau fel eiddo, isadeiledd ac ecwiti preifat/dyledion yn fuddsoddiadau hirdymor y mae'r Gronfa yn llai tebygol o allu eu gwireddu mewn cyfnod byr. Mae cyfnodau "cloi" yn arferol mewn cronfeydd mantoli (i reoli llif i mewn/allan i sicrhau y caiff cyfalaf cleientiaid presennol ei ddiogelu) sy'n golygu nad yw'r buddsoddiadau hyn yn rhwydd i'w gwireddu chwaith.

Er gwaethaf hyn, mae'r Gronfa'n cynnal buddsoddiadau digonol mewn asedau hylifol i gwrdd â'i atebolrwydd yn y tymor byr a chanolig wrth iddynt fynd yn ddyledus.

## Strategaeth Arian Parod

O 1 Ebrill 2011, roedd Rheoliadau Buddsoddi 2009 yn gorchymyn fod yn rhaid i'r Gronfa gael cyfrif banc ar wahân i'r Awdurdod Lleol.

Mae gan y Gronfa ddyraniad strategol o 5% i arian parod i gefnogi gofynion llif arian presennol, sy'n cynnwys:

- Buddion a throsglwyddiadau yn unol â'r Rheoliadau.
- Costau gweinyddol y Gronfa.
- Y ffioedd rheoli buddsoddiad.
- Ymrwymiadau i fuddsoddiadau marchnadoedd preifat.

Nod y Gronfa yw osgoi benthyg at ddibenion hylifedd, er bod Rheoliadau Buddsoddi CPLlL yn caniatáu i Gronfeydd Pensiwn fenthyg am uchafswm o 90 diwrnod.

Os bydd angen benthyg, gellir cadw'r arian parod yn un o'r canlynol, yn dibynnu ar ofynion llif arian:

- Cyfrif banc y Gronfa Pensiwn gyda banc y National Westminster ar gyfer hylifedd dyddiol.
- Cyfrif cadw Banc National Westminster sy'n caniatáu mynediad yn syth.
- Y Gronfa Insight Liquidity ar gyfer gofynion hylifedd annisgwyl neu gyfraddau elw uwch.

## Benthyca Stoc

Pan mae Cronfa yn buddsoddi gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, mae hyn drwy gronfeydd wedi'u cronni. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn penderfynu ar bolisi benthyca stoc ar gyfer y cronfeydd perthnasol ac wedi penodi Northern Trust i weithredu'r polisi.

### Ymagwedd at risg, gan gynnwys y ffordd y caiff risgiau eu mesur a'u rheoli

Mae Rheoliad Buddsoddi 7(2) (c) CPLlL yn gorchymyn fod cronfeydd yn disgrifio eu hymagwedd at risg o fewn eu portffolio buddsoddi, gan gynnwys rhoi crynodeb o'r risgiau allweddol a manylion yr ymagwedd i liniaru'r risg (lle bo'n bosibl ac yn briodol).

## Cofrestr Risgiau

Mae gan y Gronfa Bolisi Rheoli Risg a Chofrestr Risgiau ar waith.

Mae gan y Gofrestr Risgiau adran benodol ar gyfer Risgiau Ariannu a Buddsoddiad (gan gynnwys cyfrifo ac archwilio). Mae risgiau asedau/buddsoddiad penodol a amlygir yn y gofrestr risgiau yn cynnwys rhai yn ymwneud â marchnadoedd buddsoddi, methiant rheolwyr i gyflawni eu hamcanion, methu ar gyfleoedd marchnad, a hylifedd. Diweddarir y gofrestr risgiau yn rheolaidd a rhoddir ystyriaeth i risgiau allweddol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Pwyllgor a chyfarfodydd AP.

Y brif risg i'r Gronfa yw'r camgymhariad rhwng ei hasedau a'i hatebolrwyddau. O ganlyniad, os yw'r enillion buddsoddi yn llai na'r hyn sy'n ofynnol yn y strategaeth gyllido, bydd y lefel gyllido yn dirywio (gan gymryd fod popeth arall yn gyfartal). Y prif risgiau o fewn y strategaeth gyllido yw'r gyfradd llog, chwyddiant a risgiau marwolaeth, a'r risg buddsoddiad sy'n deillio o'r portffolio buddsoddiadau, a reolir drwy arallgyfeirio daliadau asedau. Mae gan y Gronfa Fframwaith Rheoli Risg pwrpasol sydd ag amcanion sefydledig i sicrhau bod cysylltiad y Gronfa â risg cyfradd llog a risg chwyddiant yn cael ei reoli a'i fonitro'n barhaus.

Mae buddsoddi, o ran ei natur, yn weithgarwch seiliedig ar risg lle bydd yr enillion a gyflawnir yn adlewyrchu gwahanol lefelau risg. Mae nifer o risgiau buddsoddi i'w hystyried o fewn cronfa fuddsoddi, yn benodol risgiau rheolwr, marchnad, credyd, arian a hylifedd. Rhoddir ystyriaeth i risgiau anariannol sy'n berthnasol yn ariannol ym Mholisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa, a eglurir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon. Mae hyn yn cynnwys dull y Gronfa o ran y risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, a'r trawsnewid i economi carbon isel.

Wrth ystyried strategaeth fuddsoddi'r Gronfa, rhaid felly ystyried y cydbwysedd hwn rhwng risg ac enillion. Yn ymarferol, amcan y strategaeth fuddsoddi fydd cyflawni'r enillion mwyaf posibl a sicrhau cyn lleied â phosibl o risg negyddol, o fewn paramedrau y cytunwyd arnynt.

## Risg Diddyledrwydd a Risg Camgymhariad

Mesurir y rhain drwy asesiadau ansoddol a meintiol o ddatblygiad disgwyliedig yr asedau mewn perthynas ag atebolrwyddau.

Rheolir y rhain drwy osod dyraniad asedau strategol penodol i'r Gronfa gyda lefel briodol o risg.

## Risg Rheolwr (gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru)

Caiff hyn ei asesu fel y gwyriad disgwyliedig o'r risg a'r enillion disgwyliedig, fel yr amlinellir yn amcanion y rheolwyr, mewn perthynas â'r polisi buddsoddi.

Caiff ei fesur drwy fonitro'r gwyriad gwirioneddol o enillion mewn perthynas â'r amcan a ffactorau sy'n cefnogi proses fuddsoddi'r rheolwyr, a drwy fonitro a disodli unrhyw reolwyr lle mae pryderon yn bodoli dros eu gallu i barhau i ddarparu'r mandad buddsoddi.

Nod y strategaeth fuddsoddi a'r strwythur rheoli yw rheoli'r lefel briodol o risg ar gyfer y targed enillion, sy'n adlewyrchu'r strategaeth fuddsoddi. Mae gofyn i reolwyr buddsoddi allanol y Gronfa fuddsoddi yn unol â'r canllawiau buddsoddi a amlinellir gan y Gronfa. Mae ceidwaid annibynnol yn cadw'r asedau ar ran y Gronfa.

## Risg Hylifedd

Caiff hyn ei fonitro yn ôl lefel y llif arian sydd ei angen gan y Gronfa dros gyfnod penodol.

Wrth sicrhau bod hylifedd priodol o fewn yr asedau sy'n cael eu dal, mae'r Gronfa'n buddsoddi mewn buddsoddiadau llai hylifol i fanteisio ar y "premiwm caethder" a gynigir.

Er gwaethaf hyn, mae'r Gronfa yn dal nifer priodol o fuddsoddiadau sydd ar gael yn rhwydd. Buddsoddir asedau'r Gronfa mewn cronfeydd a grynhoir, y gellir eu gwireddu'n barod ac mae cryn dipyn o hylifedd yn seiliedig ar y dyraniad asedau strategol presennol.

## Risg Wleidyddol

Caiff hyn ei fesur gan lefel y crynodiad mewn unrhyw farchnad gan arwain at y risg o ddylanwad negyddol ar werthoedd buddsoddi yn deillio o ymyrraeth wleidyddol.

Mae'r Gronfa'n rheoli hyn drwy adolygiadau rheolaidd o fuddsoddiadau a drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n rhoi graddau eang o ymyrraeth.

## Risg Llywodraethu Corfforaethol

Asesir hyn drwy adolygu polisïau rheolwyr buddsoddi'r Gronfa ynghylch llywodraethu corfforaethol.

O ran asedau a fuddsoddwyd drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r rhain yn destun Polisi Stiwardiaeth a gytunwyd. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio gyda Robeco a'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol i weithredu'r polisi hwn.

## Risg Ddeddfwriaethol

Dyma'r risg y bydd angen i'r Pwyllgor weithredu yn sgil newidiadau deddfwriaethol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau o'r fath i ddeddfwriaeth.

Bydd y Gronfa yn ymateb i ymgynghoriad ar newidiadau deddfwriaeth arfaethedig i helpu dylanwadu newidiadau priodol.

Mae’r Pwyllgor yn cydnabod nad oes modd osgoi’r risg ond bydd yn ceisio mynd i’r afael ag unrhyw newidiadau gofynnol er mwyn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau i’r ddeddfwriaeth.

## Risg y Farchnad

Dyma’r risg y bydd gwerth teg llif arian o offerynnau ariannol yn y dyfodol yn codi a gostwng yn sgil newidiadau i brisiau’r farchnad.

Mae’r Gronfa’n ceisio rheoli’r risg hon drwy'r polisi strategol sy’n sicrhau arallgyfeirio buddsoddiadau ar draws ystod o ddosbarthiadau o asedau a marchnadoedd sy’n caniatáu cydberthyniad isel gyda’i gilydd ac ar draws detholiad o reolwyr.

Mae gan y Gronfa bortffolio Dyraniad Asedau Tactegol, sy'n ceisio manteisio ar risg y farchnad, drwy wneud dyraniadau tactegol tymor byrrach sy’n gweddu’n benodol i nodweddion y Gronfa. Gan fod y rhan fwyaf o'r portffolio yn agored i risg y farchnad, y brif risg i'r Gronfa yw gostyngiad ym mhrisiau'r farchnad. Er na all symudiadau yn y farchnad gael eu hosgoi yn gyfan gwbl ac yn wir, mae yna adegau pan fydd yr holl asedau yn cydberthyn mwy, gall yr effaith gael ei liniaru trwy arallgyfeirio ar draws y dosbarthiadau o asedau ac ymagweddau at fuddsoddi.

Mae risg y farchnad yn cynnwys y tri math canlynol o risg:

### Risg Arian Cyfred

Dyma’r risg sy’n codi pan fo pris arian un diriogaeth yn symud o’i gymharu ag arian (cyfeirnod) arall.  Yn y cyd-destun hwn, efallai fod y Gronfa wedi buddsoddi mewn stociau neu asedau tramor, sydd wedi eu cysylltu, naill ai’n uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, ag arian heblaw am Sterling.  Mae risg y bydd pris arian cyfred yn symud mewn ffordd sy’n dibrisio’r arian hwnnw o’i gymharu â Sterling, gan felly gael effaith negyddol ar enillion buddsoddi cyffredinol.

Mae’r Gronfa yn ceisio rhoi sylw i hyn yn y TAA a hefyd wedi rhoi sylw i hyn yn y Fframwaith Rheoli Risg o safbwynt strategol.

### Risg Cyfraddau Llog

Dyma’r risg y bydd gwerth buddsoddiad yn newid yn sgil newid yn lefel y cyfraddau llog. Mae hyn yn effeithio ar offerynnau dyledion yn fwy uniongyrchol nac offerynnau twf.

Mae’r Gronfa yn ceisio rhoi sylw yn y Fframwaith Rheoli Risg o safbwynt strategol.

### Risg Chwyddiant

Dyma'r risg y bydd gwerth atebolrwyddau'r Gronfa sydd wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â chwyddiant y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI), yn cynyddu ar raddfa uwch na'r asedau.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y risg cyfraddau llog a risg chwyddiant yn ymwneud â'r offerynnau dyledion unigol. Rheolir hyn gan y rheolwyr buddsoddiad gwaelodol drwy gyfuniad o strategaethau, fel arallgyfeirio, hyd a rheolaeth cromlin arenillion. Mae'r Gronfa hefyd yn buddsoddi mewn asedau mae eu gwerth yn symud yn unol â chwyddiant fel Isadeiledd.

Mae'r Gronfa yn ceisio rhoi sylw i hyn yn y Fframwaith Rheoli Risg o safbwynt strategol.

## Cyllidebau Risg

Wrth adolygu'r Strategaeth Fuddsoddi, yn ogystal â rhoi sylw i'r potensial am adenillion buddsoddi, mae'r Gronfa hefyd ystyried risg y strategaeth arfaethedig o'i chymharu â'r un flaenorol. Asesir risg drwy ddefnyddio dull Gwerth y Risg (VaR). Mae'r ymagwedd hon yn mesur y risg colled posibl i fuddsoddiad gyda thebygolrwydd ar gyfnod amser penodol. Mae VaR o asedau'r Gronfa yn cael eu monitro yn rheolaidd.

Mae'r Gronfa'n cymryd risg o fewn ei Strategaeth Fuddsoddi, er mwyn cyflawni lefel addas o enillion uwchlaw cyfradd ostyngol gwasanaeth y dyfodol yr Actiwari gyda thebygolrwydd disgwyliedig priodol o gyflawni hyn.

## Cyngor Priodol

Wrth asesu strategaeth y Gronfa, gan gynnwys asesiad o risgiau sydd ymhlyg, a gosod terfynau uchafswm, mae'r Gronfa wedi ceisio cyngor priodol gan swyddogion, yr Actiwariaid, Ymgynghorwyr Buddsoddi ac Ymgynghorwyr Rheoli Risg.

Fel rhan o strwythur llywodraethu'r Gronfa, mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion y Gronfa, yr Ymgynghorwyr Buddsoddi, yr Ymgynghorwyr Rheoli Risg ac Actiwariaid. Mae'r Gronfa'n cael cyngor gan y partïon hyn yn rheolaidd.

# Polisi Buddsoddi Cyfrifol o fewn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi

## Cefndir Rheoleiddio

Wrth baratoi, datblygu a gweithredu'r Polisi hwn, mae'r Gronfa wedi rhoi sylw dyledus i'r cefndir rheoleiddio. Mae Rheoliadau Buddsoddi CPLlL yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu yn dangos eu bod yn ystyried unrhyw ffactorau sy'n arwyddocaol yn ariannol o ran perfformiad buddsoddiadau'r gronfa, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu corfforaethol, a dros y tymor hir, yn dibynnu ar y terfyn amser y mae'r atebolrwyddau'n codi.

Mae Rheoliadau Buddsoddi CPLlL hefyd yn gorchymyn fod awdurdodau gweinyddu'n egluro eu polisi ar arfer hawliau (gan gynnwys hawliau pleidleisio) ynghlwm wrth fuddsoddiadau. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at God Stiwardiaeth y DU y Cyngor Adrodd Ariannol ac yn gorchymyn fod cronfeydd yn eglur, lle bo hynny'n briodol, o ran eu polisi ar Stiwardiaeth gan gyfeirio at y Cod Stiwardiaeth.

Yn ogystal ag ystyried Rheoliadau Buddsoddi CPLlL wrth ddatblygu'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol, mae'r Gronfa wedi cymryd cyngor proffesiynol. Mae hefyd wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, canllawiau gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun, Adran Ffyniant Bro, Tai, Cymunedau a Llywodraeth Cymru. Mae'r Gronfa'n ymrwymo i barhau i adolygu'r polisi yn unol ag unrhyw newidiadau yn y dyfodol, neu ddiweddariadau mewn rheoliadau neu ganllawiau.

Mae'r Gronfa hefyd wedi ystyried, ymchwilio ac adolygu nifer o feysydd eraill o arfer orau wrth baratoi'r Polisi hwn, fel Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol, y Nodau Datblygu Cynaliadwy a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd (TCFD).

## Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Mae Polisi Buddsoddi Cyfrifol y Gronfa yn adlewyrchu sefyllfa gyfredol y Pwyllgor. Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo â fframio'r polisi yn ffurfiol, mae'r Gronfa wedi nodi nifer o gredoau lefel uchel a osodir dros y polisïau manylach, ac a fydd yn cyfleu agwedd drosfwaol y Gronfa at fod yn Fuddsoddwr Cyfrifol.

Yn 2023, cyflwynodd y Pwyllgor fframwaith i asesu priodoldeb o fabwysiadu polisi gwaharddiad. Lluniwyd hyn i sicrhau bod y Pwyllgor yn deall sail resymegol ar gyfer ac effaith posibl o waharddiadau gan barhau i fodloni ei ddyletswyddau ymddiriedol er mwyn cefnogi'r cyllid i bensiynau. Mae'n asesu effaith gwaharddiad risg, dychwelyd ac arallgyfeirio nodweddion i ddeall goblygiadau i fodloni amcanion ariannol.

### Cefndir

Bydd Polisi Buddsoddi Cyfrifol yn cefnogi amcanion Buddsoddi Cyfrifol penodol y Gronfa gyda'r amcanion penodol cyllido a buddsoddi:

- Sicrhau bod ei strategaeth, gweithredoedd rheoli buddsoddiadau, gweithdrefnau llywodraethu ac adrodd yn rhoi ystyriaeth lawn i risgiau tymor hwy a chynaladwyedd;
- Sicrhau bod buddsoddiadau'r Gronfa'n cyd-fynd â'r newid i economi carbon isel drwy ymrwymiad i gyflawni targed allyriadau sero net erbyn 2045;
- Hyrwyddo derbyn egwyddorion cynaladwyedd a gweithio gydag eraill i wella effeithiolrwydd y Gronfa wrth roi'r egwyddorion hynny ar waith.

## Crynhoi Buddsoddiadau

Fel rhan o ddiwygiad buddsoddi'r Llywodraeth, mae'r Gronfa wedi cyfranogi yn natblygiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i grynhoi buddsoddiadau 8 cronfa CPLlL Cymreig. Tra bod pob dyraniad ased strategol a phenderfyniad polisi'n aros gyda'r Gronfa, bydd cyfrifoldebau gweithredu yn gyfrifoldeb y Bartneriaeth yn y dyfodol.

Mae'r Gronfa'n ymroddedig i grynhoi ei buddsoddiadau gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru, ac yn cydnabod bod hyn yn cyflwyno heriau, a hefyd cyfleoedd sylweddol i wella ymagwedd y Gronfa at Fuddsoddi Cyfrifol. Mae'r Gronfa wedi ymgysylltu'n rhagweithiol gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru i osod polisi ac amcanion Buddsoddi Cyfrifol, a bydd yn parhau i chwarae rôl rhagweithiol i wella'r rhain yn y dyfodol gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn parhau yn berthnasol a phriodol i'r Gronfa.

## Stiwardiaeth ac Ymgysylltiad

Mae stiwardiaeth yn golygu bod yn gyfrifol wrth ddyrannu cyfalaf, ei reoli a'i oruchwylio er mwyn creu gwerth hirdymor i fuddsoddwyr a buddiolwyr y Gronfa, gan arwain at fuddion cynaliadwy i'r economi, yr amgylchedd a chymdeithas. Cyhoeddodd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC) y Cod Stiwardiaeth y DU ("y Cod") cyntaf yn 2010 ac mae nifer o ddiweddariadau wedi bod, gyda'r diweddaraf yn 2020. Mae'r Cod yn amlinellu nifer o feysydd o arferion da y mae'r Cyngor Adrodd Ariannol yn credu y dylai buddsoddwyr sefydliadol anelu tuag atynt.

Mae canllawiau Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi a roddir gan y Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddu ymrwymo i'r Cod, a datgan sut maent yn gweithredu'r egwyddorion ar sail "cydymffurfio neu egluro". Mae'r Gronfa yn cefnogi ac ar hyn o bryd yn llofnodwr i'r Cod Stiwardiaeth y DU. Gellir gweld cyflwyniad y Gronfa ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol. Fel aelod o Bartneriaeth Pensiwn Cymru, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i'r Bartneriaeth a'r rheolwyr cronfa gwaelodol gydymffurfio â'r Cod Stiwardiaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi penodi Robeco fel darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ac maen nhw'n cynorthwyo i fformiwleiddio a chynnal polisi pleidleisio ac egwyddorion ymgysylltu sy'n cyd-fynd â'r LAPFF. Yn ogystal, mae Robeco yn gyfrifol am weithredu'r polisi pleidleisio ac adrodd arno.

## Adrodd a Datgelu

Mae'r Gronfa'n ymroddedig i dryloywder ei gweithredoedd, yn enwedig o ran Buddsoddi Cyfrifol. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys copïau o nifer o ddogfennau, yn cynnwys datganiadau polisi, a Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi (yn llawn).  Mae'r adroddiad blynyddol ar gael ar wefan y Gronfa. Derbynnir y bydd agweddau at Fuddsoddi Cyfrifol a chynaliadwyedd yn datblygu dros amser, ac felly mae'n hanfodol parhau i adolygu polisïau ac arferion yn rheolaidd i sicrhau eu heffeithiolrwydd. Yn ogystal, mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd tryloywder ac adrodd mewn perthynas â Buddsoddi Cyfrifol a'r materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ac felly wedi gwell ei dadansoddiad,

datgeliad ac adrodd.  Bydd hyn yn cynnwys rheolwr, pleidleisio ac ymgysylltu a dadansoddi allyriadau carbon, ac effaith lle bo'n briodol.

## Credoau Buddsoddi Cyfrifol

Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd ei rôl fel stiward cyfalaf a'r angen i sicrhau safonau uchaf llywodraethu, gan hyrwyddo cyfrifoldeb corfforaethol yn y cwmnïau sylfaenol ymhle y mae ei buddsoddiadau.    Mae'r Gronfa'n cydnabod yn y pendraw fod hyn yn diogelu buddiannau ariannol y Gronfa a'i buddiolwyr. Mae gan y Gronfa ymrwymiad i arfer ei hawliau perchnogaeth ynghlwm wrth ei buddsoddiadau, gan adlewyrchu cred y Gronfa y dylai perchnogion asedau cyfrifol gynnal trosolwg o'r cwmnïau maent yn buddsoddi ynddynt yn y pen draw, gan gydnabod fod gweithredoedd y cwmnïau'n effeithio nid yn unig ar eu cwsmeriaid a'u cleientiaid, ond yn ehangach ar eu gweithwyr, budd-ddeiliaid eraill a hefyd cymdeithas yn fwy cyffredinol.

Mae'r Gronfa'n diffinio **Buddsoddi Cyfrifol** fel:

Ymgorffori ystyriaethau cynaliadwyedd yn y broses fuddsoddi, yn cynnwys ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ar gyfer persbectif ehangach ar risg ac enillion.

Wrth ddatblygu ei hymagwedd at Fuddsoddi Cyfrifol, mae'r Gronfa'n ceisio deall a rheoli'r ESG a'r risg i enw da y mae'n agored iddi. Mae'r polisi'n nodi ymagwedd y Gronfa at hyn.

Mae ymagwedd y Gronfa at Fuddsoddi Cyfrifol yn seiliedig ar ei Hegwyddorion, a nodir isod:

### Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol

- Dyletswydd ymddiriedol y Gronfa yw gweithredu er lles gorau ei haelodau a'i chyflogwyr.  Mae'r Gronfa'n cydnabod bod materion ESG yn creu risgiau a chyfleoedd i'w pherfformiad ariannol, a bydd yn cyfrannu at y nodweddion risg ac enillion. Mae'r Gronfa'n credu o ganlyniad, y dylid ystyried y ffactorau hyn yn ei Strategaethau Ariannu a Buddsoddi a drwy gydol y broses gwneud penderfyniadau.
- Mae'r Gronfa yn fuddsoddwr hirdymor, gydag addewidion pensiwn am nifer o flynyddoedd. O ganlyniad, mae'n ceisio darparu enillion cynaliadwy hirdymor.
- Mae'r Gronfa yn ceisio Integreiddio ystyriaethau ESG ar draws holl ddyraniadau ased.
- Mae'r Gronfa'n ceisio defnyddio ymagwedd yn seiliedig ar dystiolaeth i weithredu'r Buddsoddiad Cyfrifol.
- Mae'r Gronfa'n cydnabod bod tryloywder ac atebolrwydd yn agweddau pwysig ar fod yn Fuddsoddwr Cyfrifol a bydd yn dangos hyn drwy gyhoeddi ei pholisi Buddsoddi Cyfrifol a gweithgaredd ar gyfer y Gronfa.
- Mae gan y Gronfa ddyletswydd i weithredu ei chyfrifoldebau stiwardiaeth (pleidleisio ac ymgysylltu) yn effeithiol, drwy ddefnyddio ei dylanwad fel buddsoddwr hirdymor i annog cyfrifoldeb corfforaethol.

- Mae'r Gronfa'n cydnabod y risg ariannol sylweddol o beidio â bod yn Fuddsoddwr Cyfrifol ac mae'n ceisio sicrhau bod y risg hon yn cael ei lliniaru drwy ei Pholisi Buddsoddi a'i weithrediad.
- Mae'r Gronfa'n cydnabod pwysigrwydd buddsoddiadau Cymdeithasol/Effaith, a all wneud effaith amgylcheddol a chymdeithasol gadarnhaol wrth fodloni ei hamcanion ariannol, a bydd yn gwneud buddsoddiadau pwrpasol i gefnogi'r nod hwn.

## Newid Hinsawdd

Mae'r Gronfa'n cydnabod y pwysigrwydd o roi sylw i'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, drwy ei strategaeth fuddsoddi, ac yn credu bod:

- Newid hinsawdd yn peri risg systematig i sefydlogrwydd cyffredinol pob economi a gwlad, gyda'r potensial i effeithio ar yr aelodau, gweithwyr a'r holl ddaliadau ym mhortffolio buddsoddi'r Gronfa;
- Nid dyletswydd gyfreithiol neu ymddiriedol y Gronfa yw ystyried effeithiau newid hinsawdd yn unig, ond hefyd yn gyson â natur tymor hir y Gronfa. Mae angen i fuddsoddiadau'r Gronfa fod yn gynaliadwy ac i fod er budd pennaf yr holl fudd-ddeiliaid allweddol.
- Mae ymgysylltiad yn hanfodol i alluogi'r newid sydd ei angen i fynd i'r afael ag Argyfwng Hinsawdd i hwyluso'r symud i economi carbon isel. Fodd bynnag, mae dad-fuddsoddi a gwaharddiad dewisol ar sail risg yn gallu bod yn briodol;
- Yn ogystal â chreu risg, mae newid hinsawdd hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i wneud buddsoddiadau dewisol sy'n cyflawni'r adenillion gofynnol, wrth wneud effaith amgylcheddol a chymdeithasol gadarnhaol ar yr un pryd, fel isadeiledd amgylcheddol ac ynni glân.

### Ymrwymiad Net-Sero

Fel rhan o'i hymrwymiad i Fuddsoddi Cyfrifol, mae'r Gronfa wedi mynd ati i werthuso a rheoli amlygiad carbon ei buddsoddiadau er mwyn cynorthwyo i sicrhau trawsnewid effeithiol i economi carbon isel. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae gan y Pwyllgor strategaeth i gyflawni allyriadau carbon net-sero o'i bortffolio buddsoddi. Yn benodol, cytunodd y Pwyllgor ar darged ar gyfer y buddsoddiadau yn y Gronfa, yn gyffredinol, i sicrhau allyriadau carbon net-sero erbyn 2045, gyda tharged interim o leihau carbon 50% erbyn 2030. Wrth wraidd yr ymrwymiad hwn, mae gan y cynllun nifer o dargedau allweddol eraill fel yr amlinellir isod:

Bod y Gronfa gyffredinol:

- yn sicrhau bod o leiaf 30% o asedau'r Gronfa wedi'u dyrannu i fuddsoddiadau cynaliadwy erbyn 2030;
- ehangu mesur allyriadau carbon o fuddsoddiadau'r Gronfa i gynnwys gymaint o gydrannau o asedau â phosib, ar sail argaeledd data dibynadwy a chywir.

O fewn y portffolio Ecwiti a Restrir:

- sicrhau gostyngiad o ran allyriadau carbon o 36% erbyn 2025 a 68% erbyn 2030;
- targedu holl bortffolio Ecwiti a Restrir i gael ei fuddsoddi mewn mandadau cynaliadwy erbyn 2030;
- ymgysylltu â'r llygryddion mwyaf ym mhortffolio Ecwiti a Rennir y Gronfa fel rhan o strategaeth stiwardiaeth ac ymgysylltu drosfwaol, er mwyn cyflawni:
  - erbyn 2025, bod gan o leiaf 70% o gwmnïau, fel y mesurir drwy werth a fuddsoddwyd ac amlygiad allyriadau,  mewn sectorau carbon-ddwys strategaethau clir a chredadwy er mwyn cyflawni net-sero neu eu bod yn destun ymgysylltiad i gyflawni'r amcan hwn;
  - erbyn 2030, bod gan o leiaf 90% o gwmnïau, fel y mesurir drwy werth a fuddsoddwyd ac amlygiad allyriadau, mewn sectorau carbon-ddwys strategaethau clir a chredadwy er mwyn cyflawni net-sero neu eu bod yn destun ymgysylltiad i gyflawni'r amcan hwn.

Bydd y Gronfa'n monitro ac adrodd yn erbyn y targedau hyn o leiaf bob blwyddyn, ac mae'n bosibl y byddant yn eu hadolygu a'u diwygio fel bo'n briodol, yn enwedig i sicrhau bod targedau ac uchelgeisiau yn unol â datblygiadau a mentrau cenedlaethol a rhyngwladol.

Lle nad yw cwmnïau mewn sectorau carbon-ddwys yn arddangos strategaeth gredadwy i gael sero net mewn cyfnod, a ddim yn cael eu hystyried ar y taflwybr cywir i wneud cynnydd yn y maes hwn, safbwynt polisi'r Pwyllgor yw y byddai dadfuddsoddi dewisol yn ganlyniad dilys.   Gan ystyried y natur cronfa wedi'i gronni o'r buddsoddiad, mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei allu gwirioneddol i roi gorau ei ddibyniaeth ar y prosesau a pholisi Partneriaeth Pensiwn Cymru. Bydd y Pwyllgor yn ymgysylltu'n weithredol gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar y maes hwn.

## Polisi Gwaharddiad

Mae'r Gronfa wedi datblygu fframwaith asesiad polisi gwaharddiad a bydd yn edrych i ddatblygu cynllun i weithredu'r gwaharddiadau canlynol:

| Mae'r polisi i wahardd cwmnïau sydd yn torri'r trothwyon canlynol: | Isafswm Amcan | Uchelgais y Gronfa |
|---|---|---|
| Y % o neu fwy o refeniw o fforio, mwyngloddio, echdynnu, gwasgaru a/ neu goethi glo caled a choedlo. | 1% | Yr un fath |
| Y % o neu fwy o refeniw o Olew: cwmnïau sydd ynghlwm mewn fforio, echdynnu, coethi a/ neu wasgaru tanwydd olew. | 10% | 1% |
| Y % o neu fwy o refeniw o Nwy: cwmnïau sydd ynghlwm mewn fforio, echdynnu, gweithgynhyrchu neu wasgaru | 50% | 1% |

| | | |
|---|---|---|
| hydrocarbon, hydrogen a chymysgedd carbon monocsid sydd yn bresennol mewn cyflwr nwyol. | | |

Mae'r polisi uchod yn berthnasol i'r asedau ecwiti corfforol a restrir i ddechrau. Mae hyn oherwydd bod y rhan hwn o'r portffolio gyda'r data fwyaf cynhwysfawr a chywir y gellir dadansoddi a monitro'r polisi mewn ffordd gadarn a chost effeithiol.  Uchelgais y Gronfa yw ystyried cais y polisi gwaharddiadau i holl rannau o'r portffolio dros amser, ar sail argaeledd data cadarn ac ymarferoldeb gweithredu.

Mae'r Gronfa yn ceisio gweithredu'r polisi gwahardd "Uchelgais y Gronfa" uchod. Cydnabu ar hyn o bryd bod opsiynau gweithredu cyfyngedig i'r polisi hwn. O ganlyniad, roedd y Gronfa wedi sefydlu polisi gwaharddid "Amcan Lleiafswm", sydd wedi alinio gyda Paris Aligned Benchmark a chredir ei fod yn ymarferol fwy gweithredol.

Mae'r Gronfa yn cydnabod er mwyn gweithredu polisi gwahardd y bydd angen gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Gan ystyried y natur gronfa wedi'i gronni o fuddsoddiadau, bydd y Gronfa yn defnyddio ymagwedd ymdrechion dda a chydnabod y byddai hyn yn arwain at gwmnïau sydd ddim yn gyson gyda'r polisi gwahardd uchod. Bydd hyn yn cael ei fonitro bob blwyddyn gan geisio eglurhad, os yw cwmnïau yn cael eu dal yn torri amodau'r meini prawf gwaharddiad.

## Blaenoriaethau Buddsoddi Cyfrifol Strategol

Mae'r Gronfa'n cydnabod, fel Buddsoddwr Cyfrifol, bod llu o feysydd posibl i ganolbwyntio arnynt, fodd bynnag, nid yw'n bosib canolbwyntio ar bopeth gyda'i gilydd. Mae'r blaenoriaethau strategol hyn gan safbwynt Buddsoddiad Cyfrifol:

### Gwerthuso a rheoli cysylltiad â charbon

- Mae'r Gronfa wedi nodi newid hinsawdd fel risg ariannol, ac yn bwriadu mesur a deall ei chysylltiad â charbon o fewn ei phortffolio buddsoddi.
- Cytunodd y Gronfa i ddefnyddio metrig ôl-troed carbon fel y prif fetrig i fonitro cynnydd carboneiddio, gan fonitro cynnydd yn erbyn allyriadau diamod a dwysedd carbon cyfartaledd pwysedig (WACI).

### Nodi cyfleoedd buddsoddi cynaliadwy

- Am nifer o flynyddoedd, mae'r Gronfa wedi ceisio gwneud buddsoddiadau Effaith/Cymdeithasol; yn ogystal â gwneud yr enillion ariannol gofynnol, trwy hyn bydd y buddsoddiad yn cael effaith amgylcheddol neu gymdeithasol gadarnhaol. Mae Adolygiadau Strategaeth Buddsoddi ddiweddar wedi cefnogi ymhellach gyda'r dyraniad ased i'r portffolio Lleol/ Effaith yn cynyddu'n gynyddrannol.
- Mae gan y portffolio Lleol /Effaith bwysau targed strategol o 8% o asedau'r Gronfa.
- Mae gan y Gronfa ddyraniad strategol i ecwiti cynaliadwy o 15% o gyfanswm asedau'r Gronfa.

### Gwella datgeliad cyhoeddus ac adrodd

- Mae'r Gronfa'n cydnabod y pwysigrwydd o dryloywder ac adrodd, mewn perthynas â materion ESG. Mae'r Gronfa'n parhau i wella'r modd y mae'n dadansoddi, datgelu ac adrodd ar ei gweithgareddau Buddsoddi Cyfrifol, yn cynnwys pleidleisio ac ymgysylltu, a dadansoddi allyriadau carbon.
- Mae'r Gronfa yn llunio adroddiad Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd ("TCFD") bob blwyddyn yn cyflenwi 12 mis i 31 Mawrth. Caiff adroddiadau eu drafftio yn unol â'r argymhellion gan y TCFD a'r cynigion ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau newid hinsawdd ar y pryd.
- Mae'r Gronfa yn cyflawni Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd ("ACT") (offeryn dadansoddi Mercer), sydd yn darparu'r Gronfa â dadansoddiad o'r gwaelod i fyny o gapasiti trawsnewid portffolio. Cynhelir dadansoddiad bob blwyddyn gan ddefnyddio 31 Mawrth fel dyddiad adrodd.

### Mynd ati i ymgysylltu â risgiau ESG

- Fel aelod o'r LAPFF, mae gan y Gronfa ymgysylltiad gweithredol gyda'i fuddsoddiad gwaelodol, mae'r ymgysylltiad hwn yn cael ei atodi gan waith Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r Gronfa wedi ymrwymo i fynd ati i weithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru a'i darparwyr, i wella ei lefelau o ymgysylltiad.

### Cod Stiwardiaeth y Cyngor Adrodd Ariannol:

- Roedd y Gronfa yn llwyddiannus gyda'r cais gyntaf i God Stiwardiaeth y DU 2020 ac yn llofnodwr cyfredol i'r Cod ar ôl cyflwyno'n flynyddol i'r Cyngor Adrodd Ariannol. Gellir gweld cyflwyniad diweddaraf y Gronfa ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol.

## Prisiad Actiwaraidd ac adolygiad o'r Strategaeth Fuddsoddi

Bydd asesiad o effaith newid hinsawdd ar strategaeth fuddsoddi'r Gronfa yn agwedd hanfodol o'r prisiad actiwaraidd a phroses adolygu'r strategaeth fuddsoddi. Mae mynd i'r afael â risgiau'n gysylltiedig â newid hinsawdd yn ffactor allweddol yn y ddwy broses.

## Ymrwymiad

Mae'r Gronfa bob amser wedi ceisio gweithredu ag ystyriaeth briodol mewn perthynas â'i buddsoddiadau ac yn cydnabod y bydd angen i'w dull Buddsoddi Cyfrifol ddatblygu'n barhaus, o ystyried cyflymder y newid o ran effaith a dealltwriaeth o faterion ESG, a'r byd sy'n newid o hyd. Oherwydd y ffocws cynyddol ar Fuddsoddi Cyfrifol o fewn y diwydiant buddsoddi, mae ffordd o feddwl ac arfer orau'n parhau i ddatblygu, ac mae'r Gronfa'n ymroddedig i sicrhau bod ei hymagwedd yn parhau i fod yn berthnasol ac addas. Bydd y Polisi Buddsoddi Cyfrifol hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob tair blynedd ar y lleiaf, fel rhan o unrhyw adolygiad strategol o ddyraniad asedau'r Gronfa, neu sy'n ofynnol oherwydd gofynion rheoliadol newidiol, neu i roi sylw i faterion penodol a all godi.

# Cymeradwyo, adolygu a rhagor o wybodaeth

## Cymeradwyo, Adolygu ac Ymgynghori

Cymeradwywyd y fersiwn hon o’r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi ym Mhwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd ar 20 Mawrth 2024. Bydd y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru’n ffurfiol o leiaf bob tair blynedd neu’n gynharach, yn seiliedig ar bryd yr ystyrir hi’n addas i adolygu ymagwedd y Gronfa at fuddsoddi asedau’r Gronfa, yn cynnwys buddsoddi cyfrifol.

## Rhagor o Wybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am unrhyw beth yn y Datganiad Strategaeth Fuddsoddi hon neu’n gysylltiedig â’r Strategaeth hon, cysylltwch â:

Philip Latham, Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd, Cyngor Sir y Fflint
**E-bost:** buddsoddiadaupensiwn@siryfflint.gov.uk
**Rhif ffôn:** 01352 702264

Mae rhagor o wybodaeth am y Gronfa i’w chael ar ei gwefan:
https://cronfabensiynauclwyd.org.uk

Mae rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru i’w chael ar ei gwefan:
https://partneriaethpensiwncymru.org/

[cronfabensiynauclwyd.org.uk](https://cronfabensiynauclwyd.org.uk)

**Cronfa Bensiynau Clwyd, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6NA**

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.